**Dinas a Sir Abertawe**

## Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Pobl

**Ystafell Bwyllgor 5, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mercher, 19 Chwefror 2020 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd C R Evans (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| S J Gallagher | P R Hood-Williams | Y V Jardine |
| M B Lewis | T M White | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Chris Francis | Swyddog Contractio Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion |
| Lindsay Haywood | Swyddog Cynllunio |
| Simon Jones | Arweinydd Strategol y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Lisa Thomas | Uwch-gyfreithiwr |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): C Anderson, M Sykes a/ac G J Tanner

---

### 32 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

### 33 Cofnodion:

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi - Pobl a gynhaliwyd ar 15 Ionawr 2020 fel cofnod cywir.

### 34 Ymagwedd Strategol at Fodelau Comisiynu - Modelau Gofal a Chefnogaeth Newydd. (Verbal)

Nododd y Cadeirydd y byddai Jane Whitmore a Lisa Banks yn darparu adborth ar y gwaith a wnaed yn y gweithdy ar 15 Ionawr 2020 yn y cyfarfod nesaf a drefnwyd ar gyfer 18 Mawrth 2020.

**Penderfynwyd** cofnodi'r diweddariad llafar.

### 35 Trosglwyddo ar gyfer Plant a Phobl Ifanc ag Anabledd. (Llafar)

Rhoddodd Chris Francis, Prif Arweinydd Datblygu a Chomisiynu Busnes y diweddariad llafar canlynol:

Byddai'r pwyllgor yn ystyried y Polisi Pontio Drafft yn fanylach yn y gweithdy yn syth ar ôl cyfarfod y pwyllgor. Dywedodd y byddai'n rhaid rhoi sylw i ystyriaethau eraill megis:

- Côd Ymarfer Llywodraeth Cymru;
- Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) - yn aros am arweiniad terfynol;
- Gofal Parhaus - yn aros am y fersiwn derfynol;
- Canllawiau Llywodraeth Cymru ar Bontio a Throsglwyddo ar gyfer Iechyd - cyhoeddwyd ar 27 Ionawr 2020, daw'r ymgynghoriad i ben AR 20 Ebrill 2020.

Trefnwyd cyfarfod ar gyfer 20 Mawrth 2020 dan arweiniad Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Abertawe, ynghyd â Chyngor Castell-nedd Port Talbot a chynrychiolwyr o'r Bwrdd Iechyd. Gobeithiwyd y byddai modd cadarnhau yn y cyfarfod hwnnw a fyddai partneriaid mewn sefyllfa i "gymeradwyo'r" Polisi Pontio Drafft ar y cam hwnnw, fodd bynnag, roedd yn bosib y byddai partneriaid eisiau aros am ganlyniad y dogfennau ymgynghori eraill i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r Polisi Pontio Drafft.

Aeth y Prif Arweinydd Datblygu a Chomisiynu Busnes ymlaen i ddweud gan fod y dogfennau ymgynghori dywededig yn cynnwys yr un cynnwys yn gyffredinol â'n Polisi Pontio Drafft, nid oedd yn disgwyl iddynt newid yn ddramatig. Ar y sail honno, byddai'n awgrymu bod Cyngor Abertawe yn ymrwymo i ddogfen bolisi lefel uchel, er nad oedd yn glir a fyddai partneriaid yn cytuno. Dywedodd y byddai'r polisi yn cynnwys atodiadau a'r atodiadau hynny y byddai'n cael eu diwygio (os bydd unrhyw newidiadau perthnasol) yn hytrach na'r polisi ei hun.

Mynegodd y pwyllgor bryder ynghylch yr oedi parhaus wrth gyflwyno'r Polisi Pontio Drafft hwn i'r cyngor. Cydnabuont fod yr oedi o ganlyniad i'r ffactorau dywededig ac awgrymwyd y dylai'r Prif Arweinydd Datblygu a Chomisiynu Busnes ddarparu asesiad risg o'r hyn a allai ddigwydd pe bai'r polisi'n cael ei oedi ymhellach. Gofynnwyd iddo hefyd gadarnhau yn y cyfarfod ar 20 Mawrth pryd y byddai'r Pwyllgor Datblygu Polisi Pobl mewn sefyllfa i gyflwyno'r Polisi Pontio Drafft i'r Cabinet.

Nododd y Cadeirydd y byddent yn trafod y materion hyn ymhellach yn y gweithdy a fyddai'n cael ei gynnal yn syth ar ôl cyfarfod y pwyllgor.

**Penderfynwyd** cofnodi'r diweddariad llafar.

## 36 Cynllun Gwaith 2019-2020.

Cyflwynodd y Cadeirydd y Cynllun Gwaith ar gyfer 2019-2020.

**Penderfynwyd** y dylid nodi'r Cynllun Gwaith.

Daeth y cyfarfod I ben am 4.15 pm

**Cadeirydd**